Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Gallwch chi gael pob un o'n taflenni ni mewn print mawr, ar dâp sain ac mewn Braille.

Eich apwyntiad i gael colposgopi
Your colposcopy appointment

Cymraeg Clir
NHS Wales GIG Cymru

Beth yw colposgopi?

Proses o ddefnyddio colposgop i archwilio'r serfics (gwddf y groth) yw colposgopi. Mae colposgop yn edrych fel binocwlars ar stand. Nid yw'n mynd y tu mewn i chi, ond mae'n rhoi cyfle i'r meddyg neu'r nyrs weld y serfics yn fwy manwl. Bydd yr archwiliad yn cael ei wneud mewn clinig colposgopi.

Mae'n bosib gwneud colposgopi'n ddiogel yn ystod beichiogrwydd. Ond, os oes angen triniaeth arnoch chi, bydd y driniaeth yn cael ei gohirio tan ar ôl y geni fel arfer.

Pam mae angen apwyntiad arna'i?

- Efallai y cawsoch chi ganlyniad brawf taeniad oedd yn dangos newidiadau annormal yn y celloedd. Dyscariosis yw'r enw ar hwn ac nid yw'n anarferol – mae tua un o bob 10 taeniad yn annormal. Gallai olygu bod ychydig o gelloedd mewn perygl o droi'n ganseraidd yn y dyfodol. Mae'n annhebygol iawn mai canser yw'r annormaleddau yma.
- Efallai fod eich tri phrawf taeniad diwethaf wedi bod yn annigonol. Nid yw hyn yn golygu bod celloedd annormal i'w gweld, ond ei bod hi'n amhosib gwirio o'ch prawf taeniad a yw'r celloedd yn iach. Felly, mae gofyn archwilio ymhellach. Mae tua un o bob 50 prawf taeniad yn annigonol.
- Efallai y cawsoch chi'ch anfon i gael eich archwilio yn y clinig am eich bod chi'n gwaedu neu fod rhedlif (discharge) arnoch chi, er bod eich prawf taeniad yn normal.
- Efallai fod eich meddyg teulu neu feddyg eich clinig neu nyrs wedi gofyn I ni archwilio ymddangosiad eich serfics yn fwy manwl. Cysylltwch â'r clinig os ydych chi'n methu cadw'r apwyntiad er mwyn i ni ei gynnig i rywun arall. Bydd rhaid i chi drefnu apwyntiad arall eich hun.

Beth fydd yn digwydd yn y clinig?

Pan ewch chi i'r clinig, ewch at y clerc neu'r derbynnydd a fydd yn gwirio'ch manylion. Efallai na fydd cyfleusterau gofalu am blant yn y clinig. Os oes angen i chi aildrefnu neu ganslo'ch apwyntiad, ffoniwch y rhif ffôn ar lythyr y clinig. Mae croeso i chi drefnu i berthynas neu ffrind fynd gyda chi i'r clinig.

Os byddwch chi yng nghanol eich mislif (period) ar ddiwrnod eich apwyntiad ac mae'ch mislif yn rheolaidd, ffoniwch i drefnu apwyntiad arall. Os nad yw'ch mislif yn rheolaidd neu os ydych chi'n gwaedu trwy'r amser, cadwch eich apwyntiad.

Bydd naill ai nyrs neu feddyg yn eich gweld chi ac yn esbonio'r rheswm dros roi apwyntiad i chi cyn i chi gael eich archwilio. Byddai'n syniad da i chi wybod dyddiad eich mislif diwethaf.

Beth fydd yn digwydd yn ystod yr archwiliad?

Bydd angen i chi dynnu'ch dillad isaf. Bydd nyrs y clinig yn eich helpu i orwedd ar gadair neu wely arbennig a fydd yn cynnal eich coesau. Bydd sbeciwlwm (y math o declyn roedd eich meddyg neu nyrs yn ei ddefnyddio wrth wneud eich prawf taeniad) yn cael ei roi yn eich gwain. Efallai y byddan nhw'n ail-wneud y prawf taeniad. Bydd gwahanol hylifau'n cael eu rhoi ar eich serfics, a fydd yn helpu i ddangos unrhyw fannau annormal. Bydd y meddyg neu'r nyrs yn defnyddio'r colposgop i edrych ar y mannau yma.

Mewn rhai clinigau, byddwch chi'n gallu gwylio'ch archwiliad ar fonitor teledu. Ar ôl gofyn am eich caniatâd, gall y Colposgopydd ddefnyddio'r camera i dynnu llun o'ch serfics i'w storio gyda'ch cofnodion ysbyty.

Weithiau, bydd darn mân iawn o feinwe (tissue) yn cael ei dynnu o wyneb eich serfics. Biopsi yw'r enw ar hwn, a gallai achosi pigo ysgafn am rai eiliadau. Efallai y bydd rhai clinigau'n cynnig triniaeth yn ystod eich ymweliad cyntaf. Bydd y staff yn esbonio'r driniaeth ar y pryd. Efallai y byddai'n syniad i chi fynd â rhywun gyda chi i'r clinig gan fod rhai clinigau'n gwrthod cynnig triniaeth os ydych chi wedi dod ar eich pen eich hun.

Mae'n cymryd tua 10 neu 15 munud i wneud yr archwiliad. Gall unrhyw driniaeth gymryd mwy o amser, felly gadewch ddigon o amser ar gyfer yr ymweliad cyfan.

Beth all y colposgopi ei ddangos i chi?

Efallai y bydd y meddyg neu'r nyrs yn gallu dweud wrthych chi yn ystod yr archwiliad beth sydd o'i le a pha driniaeth sy'n angenrheidiol. Ond, yn aml, bydd angen iddyn nhw aros am ganlyniadau unrhyw brofion.

Beth mae'r driniaeth yn ei olygu?

Mae LLETZ (sydd weithiau'n cael ei alw'n DLE, DLB neu Biopsi dolen) yn golygu defnyddio dolen wifren fach i dynnu celloedd annormal. Weithiau bydd y driniaeth yma'n cael ei gwneud yn ystod yr ymweliad cyntaf.

Mae triniaeth laser yn defnyddio pelydryn o olau i ddinistrio celloedd annormal.

Mae ceulad oer (cold coagulation), cryoseriad (cryocautery) a diathermedd (diathermy), yn dinistrio celloedd annormal trwy ddefnyddio stiliwr (probe) wedi'i osod ar y serfics.

Mae'r holl driniaethau yma'n cael eu gwneud yn y clinig fel arfer. Gallwch chi gael anaesthetig lleol sy'n lladd y teimlad yn y man dan sylw.

Mae angen i rai menywod gael biopsi côn. Mae hwn yn golygu tynnu darn bach o'r serfics a, fel arfer, mae angen i chi gael anaesthetig cyffredinol (byddech chi'n cysgu).

Os oes angen triniaeth arnoch chi, byddwch chi'n cael y driniaeth sy'n fwyaf addas i chi.

Pwy sydd angen triniaeth?

Os yw'ch canlyniadau'n dangos neoplasia mewnepithelaidd serfigol (cervical intra-epithelial neoplasia neu CIN) sydd weithiau'n cael ei alw'n gelloedd cyn-ganseraidd, efallai y byddwch chi'n cael eich cynghori i gael triniaeth.

Mae CIN yn cael ei rannu'n dri math: CIN1, CIN2 a CIN3. Newid mân iawn yn y celloedd yw CIN1. Mae'r math yma'n aml yn troi'n normal eto ohono'i hun, heb orfod cael triniaeth. Mae'r newidiadau'n fwy amlwg gyda CIN2 a CIN3, ac mae angen triniaeth i rwystro canser rhag datblygu yn y dyfodol. Mae'r rhain yn llai tebygol o droi'n normal eto eu hunain. Bydd eich meddyg neu nyrs yn eich cynghori a oes angen triniaeth neu beidio.

A yw'r driniaeth yn gweithio?

Mae triniaeth yn 100% llwyddiannus bob tro bron. Ond efallai y bydd angen rhagor o driniaeth ar nifer bach iawn o fenywod a gafodd driniaeth. Oherwydd hyn, mae'n bwysig iawn i chi gadw eich apwyntiadau dilynol rheolaidd.

Ar ôl yr archwiliad

Ar ôl archwiliad colposgopi, dylech chi deimlo'n ddigon da i fynd ymlaen â'ch gweithgareddau arferol. Ond, os cawsoch chi driniaeth, efallai y byddwch chi am gymryd pethau'n dawel am weddill y diwrnod. Os ydych chi'n teimlo'n wael neu'n anhwylus ar ôl eich ymweliad, peidiwch â gyrru car tan fyddwch chi'n well.

Os ydych chi wedi cael biopsi, gallech chi sylwi ar redlif gwaedlyd am rai dyddiau. Gwisgwch dyweli mislif yn hytrach na thamponau er mwyn osgoi haint (infection). Dylech chi osgoi rhyw am tua 7 diwrnod.

Os ydych chi wedi cael triniaeth, bydd angen i chi osgoi rhyw a pheidio â defnyddio tamponau am fis cyfan. Dylech chi osgoi nofio hefyd hyd nes y bydd y rhedlif wedi stopio.

Os byddwch chi'n gweld eich bod chi'n gwaedu'n drwm neu'n sylwi ar redlif trwm neu boen ddrwg iawn, cysylltwch â'r clinig. Dilynwch gyngor y clinig colposgopi os ydych chi'n ceisio cysylltu tu allan i oriau swyddfa. Cyn gadael y clinig, gofalwch eich bod chi'n gwybod sut a phryd y byddwch chi'n cael y canlyniadau, a phwy i'w ffonio os oes gennych chi gwestiynau neu broblemau.

Fydd angen triniaeth ddilynol arna'i?

Bydd hyn yn dibynnu a oedd eich prawf taeniad yn normal, beth oedd i'w weld ar unrhyw biopsi, ac a oes angen triniaeth arnoch chi.

Bydd eich Colposgopydd yn esbonio unrhyw driniaeth ddilynol y byddwch chi ei hangen, naill ai yn ystod eich apwyntiad neu mewn llythyr pan fydd eich canlyniadau ar gael.

Fe fethais i â chadw fy apwyntiad - beth fydd yn digwydd

Mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn y clinig. Os oeddech chi'n methu cadw apwyntiad, dylech chi geisio cysylltu â'r clinig neu'ch meddyg i drefnu un arall. Os ydych chi heb roi gwybod i'r clinig, byddan nhw'n anfon un apwyntiad arall i chi. Os na fyddwch chi'n cadw'r ail apwyntiad, fyddwch chi DDIM yn cael un arall.

Os byddwch chi'n methu dau apwyntiad ac yn methu cysylltu â'r clinig, bydd Cyd-drefnydd Nyrsio eich ardal yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i'ch meddyg teulu. Gall eich meddyg teulu neu'r Cyd-drefnydd Nyrsio eich cyfeirio unwaith eto ar unrhyw adeg.

Mwy o gwestiynau?

Os hoffech chi ofyn unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â sgrinio, cysylltwch â'ch meddyg teulu, nyrs y practis neu staff clinig eich cymuned. Gallwch chi hefyd ysgrifennu at:

Y Cyfarwyddwr
Sgrinio Serfigol Cymru
18 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd. CF11 9LJ

Rydyn ni'n cyhoeddi taflenni ar wahanol agweddau ar sgrinio serfigol. Gallwch chi gael ein taflenni

- o adran weinyddu'r Gwasanaeth Sgrinio Serfigol yn eich ardal
- gan eich meddyg teulu
- o'n gwefan: www.screeningservices.org.uk/csw

CSW09 (ver 3) 07/07